

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6) Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael

Gorffennaf 2023



1. Cefndir

Bil Caffael Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Caffael yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022.¹ Mae'r Bil yn cael ei noddi gan Swyddfa'r Cabinet.

2. Yn y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, nodir fel a ganlyn:

*"The purpose of the Procurement Bill is to reform the United Kingdom's public procurement regime following its exit from the European Union (EU), to create a simpler and more transparent system not based on transposed EU Directives."*²

3. Cwblhaodd y Bil ei hynt drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 13 Rhagfyr 2022. Cafodd y Bil ei ddarllenid cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin y diwrnod canlynol³ a chwblhaodd ei daith drwy'r Tŷ hwnnw ar 13 Mehefin 2023.

4. Mae'r Bil bellach wedi cael ei ddychwelyd i Dŷ'r Arglwyddi i ystyried gwelliannau ar ddyddiad i'w bennu. Bydd y camau nôl ac ymlaen o welliannau rhwng y ddau Dŷ (ping pong) yn parhau hyd nes y deuir i gytundeb, ac yn dilyn hynny bydd y Bil yn cael ei gyflwyno ar gyfer Cydsyniad Brenhinol.

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol Llywodraeth Cymru

5. Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae'n ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol gan Lywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

6. Hyd yma, rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad yn ymwneud â phum memoranda:

¹ Y Bil Caffael, fel y'i cyflwynwyd (HL Bill 4) (Saesneg yn unig)

² Y Bil Caffael: Nodiadau Esboniadol, paragraff 1 (Saesneg yn unig)

³ Y Bil Caffael, fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi (HC Bill 218) (Saesneg yn unig)

- Roedd ein hadroddiad cyntaf,⁴ yn adrodd ar y memorandwm cyntaf⁵ a'r ail⁶ femorandwm.
- Roedd ein hail adroddiad,⁷ yn adrodd ar y trydydd,⁸ y pedwerydd⁹ a'r pumed memoranda.¹⁰

7. Roedd yr adroddiadau hyn yn destun dadleuon ar ddau gynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Senedd ar 28 Mawrth 2023:¹¹

- Cynnig 1: Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno y dylai darpariaethau yn y Bil Caffael, sef Rhan 1 "Diffiniadau Allweddol", Rhan 2 "Egwyddorion ac Amcanion", Rhan 3 "Dyfarnu Contractau Cyhoeddus a Gweithdrefnau", Rhan 4 "Rheoli Contractau Cyhoeddus", Rhan 5 "Gwrthdaro Buddiannau", Rhan 6 "Contractau Is Na'r Trothwy", "Cyflenwyr gwladwriaeth o dan gytundeb: peidio â gwahaniaethu", Rhan 8 "Gwybodaeth a Hysbysiadau: Darpariaeth Gyffredinol", Rhan 9 "Rhwymedïau ar gyfer Torri Dyletswydd Statudol", Rhan 10 "Goruchwyllo Caffael", Rhan 11 "Awdurdodau Priodol a Chaffael Trawsffiniol", Rhan 12 "Diwygiadau a Dirymiadau", Rhan 13 "Cyffredinol" a darpariaethau cysylltiedig yn Atodlenni 1 i 8, 10 ac 11, i'r graddau y dônt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, gael eu hystyried gan Senedd y DU.
- Cynnig 2: Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Caffael, sef "Treaty state suppliers", "Trade disputes" a darpariaethau cysylltiedig yn Atodlen

⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru](#)

[ar y Bil Caffael](#), Hydref 2022; [Ymateb Llywodraeth Cymru](#), 14 Tachwedd 2022

⁵ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Y Bil Caffael](#), Mehefin 2022

⁶ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\) Y Bil Caffael](#), Gorffennaf 2022

⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memoranda Rhif 3, Rhif 4 a Rhif 5\) Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael](#), Mawrth 2023; [Ymateb Llywodraeth Cymru](#), 18 Ebrill 2023

⁸ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 3\) Y Bil Caffael](#), Rhagfyr 2022

⁹ Er y gosodwyd Memorandwm Rhif 4 [yn gyntaf ar](#) 19 Rhagfyr 2022, ar 24 Ionawr 2023, gosododd Llywodraeth Cymru fersiwn arall yn ei le: [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 4\) ar y Bil Caffael](#). Nid oedd newid i gynnwys y fersiwn Saesneg; cywirwyd y fersiwn Gymraeg i ddatrys anghysondebau â'r fersiwn Saesneg.

¹⁰ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 5\) Y Bil Caffael](#), Chwefror 2023

¹¹ [Y Cyfarfod Llawn](#), 28 Mawrth 2023, Cofnod y Trafodion [417 i 466]

9, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

8. Derbyniodd y Senedd gynnig 1 ond ni dderbyniodd gynnig 2.¹²

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 6)

9. Ar 21 Mehefin 2023, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach gerbron y Senedd (Memorandwm Rhif 6)¹³ mewn perthynas â gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil gan Lywodraeth y DU ar 7 Mehefin 2023 i'w hystyried yn y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, a ddechreuodd ar 13 Mehefin 2023. Ym Memorandwm Rhif 6 mae'r Gweinidog yn nodi "cytunwyd ar yr holl welliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth"¹⁴ ac mae'n datgan:

*"Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd ar 15 a 21 Tachwedd, i'r graddau eu bod yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, yn destun yr LCM atodol hwn."*¹⁵

10. Mae paragraff 18 ac Atodiad A i Femorandwm Rhif 6 yn nodi gwybodaeth am y gwelliannau.

11. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad ffeithiol hefyd ar y sefyllfa ers cyhoeddi Memorandwm Rhif 5 ar 6 Chwefror 2023.¹⁶

12. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Cyhoeddus a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 6 erbyn 3 Gorffennaf 2023.¹⁷

¹² Y Cyfarfod Llawn, 28 Mawrth 2023, Cofnod y Trafodion [545 i 546]

¹³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6), Y Bil Caffael, 21 Mehefin 2023

¹⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6), Y Bil Caffael, 21 Mehefin 2023, paragraff 7

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6), Y Bil Caffael, 21 Mehefin 2023, paragraff 17

¹⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6), Y Bil Caffael, 21 Mehefin 2023, paragraffau 14 i 17

¹⁷ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 6\) ar y Bil Caffael](#), Mehefin 2023

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a wnaed i'r Bil

13. Ym Memorandwm Rhif 6, mae'r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

“Gan fod y gwelliannau y manylir arnynt yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac mae pob un yn ymwneud â'r darpariaethau a nodir yn y memoranda cydsyniad deddfwriaethol blaenorol, mae'r rhesymeg dros wneud y darpariaethau hyn yn y Bil yn parhau i fod yn gymwys.”¹⁸

14. Daw'r Gweinidog i'r casgliad a ganlyn:

“Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda swyddogion yn Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod amcanion polisi Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys, ac rwyf o'r farn y byddai'r darpariaethau hyn yn darparu cyfundrefn gaffael symlach a thryloyw yng Nghymru.

Heblaw am y gwelliannau hyn, mae Senedd Cymru eisoes wedi trafod y Bil a phleidleisio arno. Yn fy marn i, mae'r gwelliannau a gynigir yn yr LCM atodol hwn yn rhai rhesymol. Rwy'n argymhell felly bod cydsyniad yn cael ei roi i'r gwelliannau hyn.”¹⁹

2. Trafodaeth y pwyllgor

15. Gwnaethom ystyried Memorandwm Rhif 6 a chytuno ar ein hadroddiad ar 3 Gorffennaf 2023.

Ein barn ni

16. Nodwn resymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil, fel y'u nodir ym Memorandwm Rhif 6.

Conclusion 1. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod y darpariaethau y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 6 yn dod o fewn diben o

¹⁸ Memorandwm Rhif 6, paragraff 19

¹⁹ Memorandwm Rhif 6, paragraffau 22 i 23

fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'u disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd oherwydd hynny.

17. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog fod yr holl welliannau y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 6 yn ymwneud â'r darpariaethau a nodir mewn Memoranda blaenorol. Fodd bynnag, byddai'n well gennym weld mwy o eglurhad o'r berthynas rhwng y gwelliannau hyn a'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn y Memoranda eraill, a datganiad penodol hefyd ynghylch a yw'r gwelliannau'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â chynnig 2 a ystyriwyd gan y Senedd ar 28 Mawrth 2023. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd nid yw'n hawdd olrhain sut mae rhifau cymalau wedi newid rhwng fersiynau gwahanol o'r Bil yn Senedd y DU.

Conclusion 2. Yn ein barn ni, dylai pob memoranda cydsyniad deddfwriaethol, fel mater o drefn, gynnwys gwybodaeth (er enghraifft ar ffurf tabl²⁰) yn olrhain unrhyw newidiadau i rifau cymalau mewn Bil y DU o ganlyniad i welliannau a wnaed yn ystod ei daith drwy Senedd y DU.

Recommendation 1. Dylai'r Gweinidog nodi yn y ddadl ar gydsyniad deddfwriaethol sydd ar ddod sy'n ymwneud â Memorandwm Rhif 6 sut mae'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys ym Memorandwm Rhif 6 yn ymwneud â darpariaethau mewn memoranda blaenorol, a hefyd sut maent yn ymwneud â chanlyniad dadleuon y Senedd ar gynigion cydsyniad a gynhaliwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mawrth 2023.

18. Er bod y Gweinidog wedi darparu diweddariad ffeithiol am y sefyllfa ers cyhoeddi Memorandwm Rhif 5 ar 6 Chwefror 2023, nid yw Memorandwm Rhif 6 yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad ynghylch a oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud gyda Llywodraeth y DU ynghylch materion sydd wedi'u cynnwys yng nghynnig 2, nad yw'r Senedd wedi cydsynio iddynt. Mae'r materion hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chytundebau rhyngwladol, sef "Treaty State suppliers", "Trade Disputes" a darpariaethau cysylltiedig yn adran 9.

Recommendation 2. Dylai'r Gweinidog nodi yn y ddadl ar gydsyniad deddfwriaethol sydd ar ddod sy'n ymwneud â Memorandwm Rhif 6 pa gamau y mae wedi'u cymryd i ddatrys y materion nad oedd y Senedd wedi rhoi ei

²⁰ Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r dull hwn o'r blaen; Gweler er enghraifft, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 5\) Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, 28 Chwefror 2022](#). Atodiad A - Tabl cymharu rhwng fersiwn wreiddiol a newydd y Bil, 18 Ionawr 2022

chydysyniad ar eu cyfer, fel y nodir yng nghynnig 2 y ddadl cydsyniad deddfwriaethol a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2023.

Recommendation 3. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor gan ddarparu ymatebion manwl i argymhellion 1 a 2 ar gyfer y cofnod cyhoeddus.

Recommendation 4. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor i:

- esbonio'r goblygiadau i'r drefn gaffael yng Nghymru pe na bai'r Senedd yn cydsynio i gynnig 2 ar 28 Mawrth 2023;
- nodi i ba raddau y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu arfer pwerau i wneud rheoliadau yng Nghymru mewn meysydd datganoledig;
- esbonio pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'i meysydd sy'n parhau i beri pryder, gan gynnwys drwy gyflwyno deddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol.

19. Yn ein dau adroddiad blaenorol gwnaethom fynegi pryder ynghylch lefel y manylder a ddarparwyd ym Memorandwm Rhif 2²¹ a Memorandwm Rhif 5.²²

20. Fel y nodwyd uchod, roeddem yn disgwyl i Memorandwm Rhif 6 ddarparu rhagor o wybodaeth yn egluro'r berthynas rhwng y materion y mae'n ymdrin â hwy a'r Memoranda blaenorol. Ar ôl mynegi pryder ynghylch lefel y manylder mewn dau Femoranda blaenorol, mae hyn yn siomedig.

21. O ran Memorandwm Rhif 6 yn benodol, rydym yn cydnabod bod y Senedd eisoes wedi trafod a phleidleisio ar gynigion cydsyniad deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Bil. Fodd bynnag, ni ddylai hynny atal Llywodraeth Cymru rhag sicrhau bod unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol dilynol yn dilyn dadleuon o'r fath yn darparu digon o wybodaeth fanwl i alluogi Aelodau o'r Senedd i lunio barn wybodus wrth drafod cynigion cydsyniad deddfwriaethol. Mae hyn yn arbennig o wir pan nad oes llawer o amser ar gael ar gyfer cynnal gwaith craffu oherwydd y cyfyngiadau amser sy'n deillio o'r amserlen deddfwriaethol yn San Steffan.

Conclusion 3. Pan fydd Llywodraeth Cymru naill ai'n dewis, neu'n derbyn cynnig gan Lywodraeth y DU, i ddefnyddio Bil y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig,

²¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael, Hydref 2022, paragraff 88

²² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memoranda Rhif 3, Rhif 4 a Rhif 5) Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael, Mawrth 2023, paragraffau 74 i 76

mae'n hanfodol bod unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas ag unrhyw Fil o'r fath yn cynnwys gwybodaeth lawn a manwl i alluogi Aelodau o'r Senedd i wneud penderfyniadau gwybodus ar gynigion cydsyniad deddfwriaethol.